



**Llywodraeth Cymru  
Welsh Government**

**Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr**

**Panel Annibynnol Cymru ar  
Gydabyddiaeth Ariannol**

**Penodi Cadeirydd**

**Dyddiad cau: 16:00,  
11 Hydref 2021**



## The Commissioner for Public Appointments

**Cynnwys**

<b>Gwneud Cais</b>	<b>Tudalen 3-5</b>
<b>Atodiad A: Rôl y Cadeirydd</b>	<b>5-8</b>
<b>Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gynabyddiaeth Ariannol</b>	<b>9-10</b>
<b>Atodiad C: Y broses ddethol</b>	<b>11-12</b>

## Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

### Gwneud cais

Diolch am eich diddordeb yn swydd Cadeirydd Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol. Mae'r Atodiadau i'r ddogfen hon yn rhoi manylion am rôl y Cadeirydd a manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: [Penodiadau Cyhoeddus](#).

I wneud cais am y swydd hon, cliciwch ar swydd wag y Cadeirydd ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

### Datganiad Personol

Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os bydd eich datganiad yn hirach na hyn.

### CV

Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

### Geirdaon

Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirida (geirda cyflogwr a geirda personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

### Amserlen fras

Dyddiad cau:	16:00, 11 Hydref 2021
Llunio rhestr fer:	yr wythnos yn dechrau 25 Hydref 2021
Cyfweliadau:	yr wythnos yn dechrau 29 Tachwedd 2021

## Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

### Datganiad Amrywiaeth

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

### Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwmo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweiliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni'r 'meini prawf sylfaenol' yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni'r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae'n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Os hoffech gael cyfweiliad gwarantedig, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

### Cysylltiadau:

I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus  
Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus  
E-bost: [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

I gael rhagor o wybodaeth am rôl Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol a rôl y Cadeirydd, cysylltwch â Leighton Jones, yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol:

Ffôn: 0300 025 3038  
E-bost: [Leighton.jones@llyw.cymru](mailto:Leighton.jones@llyw.cymru)

## Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i <https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus>

### Atodiad A

## Penodi Cadeirydd i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

### Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Mae hwn yn gyfle cyffrous i fod yn rhan o'r broses o bennu ystod y taliadau i:

- Aelodau cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Aelodau cynghorau tref a chynghorau cymuned
- Aelodau awdurdodau parciau cenedlaethol
- Aelodau awdurdodau tân ac achub

### Rôl a chyfrifoldebau

Mae'n ofynnol i'r Panel lunio adroddiad blynyddol, a fydd yn rhagnodi'r taliadau a'r lwfansau ar gyfer cynghorwyr ac aelodau o'r sefydliadau a restrir uchod. Rhaid i'r Panel lunio Adroddiad Blynyddol a chaiff lunio Adroddiadau Atodol ar unrhyw adeg y mae'n credu bod hynny'n angenrheidiol. Wrth baratoi ei adroddiadau, mae'n ofynnol i'r Panel ystyried effaith ariannol debygol ei benderfyniadau ar yr awdurdod neu'r awdurdodau dan sylw. Mae aelodau'r panel hefyd yn ystyried unrhyw newidiadau arfaethedig i gyflog prif weithredwyr cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, yn ôl yr angen.

### Disgrifiad o rôl y Cadeirydd

- Pennu'r cyfeiriad strategol mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol cynghorwyr lleol ac aelodau awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Sicrhau bod gwaith y Panel wedi'i osod o fewn y strategaeth gyffredinol hon.
- Sgiliau arwain – gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd a gosod safonau ar gyfer gweithredu'r Panel yn effeithiol a chwblhau adroddiadau'n amserol.
- Datblygu dull strategol o ymgysylltu ag unigolion a chynrychiolwyr y cyrff y mae'r Panel yn gyfrifol am bennu lefelau cydnabyddiaeth ariannol ar eu cyfer.

## Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

- Sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o rôl y Panel a sut y gallant gyfrannu at ei waith.
- Sicrhau bod gwaith y Panel yn dryloyw ac yn agored i broses graffu a thrafodaeth gyhoeddus.
- Mynychu cyfarfodydd y Panel a chyfarfodydd rhanddeiliaid eraill gydag uwch-
- Sicrhau bod arian ac adnoddau'r Panel yn cael eu rheoli mewn dull sy'n sicrhau gwerth am arian
- Sgiliau cyfathrebu effeithiol
- Y gallu i herio'n adeiladol o fewn y Panel ac yn allanol gyda rhanddeiliaid
- Nodi rhaglen ymchwil i gefnogi'r gwaith o ddatblygu penderfyniadau'r Panel. Ystyried canlyniad yr ymchwil, dadansoddi'r canlyniadau a chyfleu sut mae'r dystiolaeth honno'n cefnogi penderfyniadau'r Paneli.
- Cyfrannu at ddatblygu polisi - gan gynnwys paratoi papurau trafod / ysgrifennu adroddiadau.
- Dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i faterion cydraddoldeb a herio arferion gwahaniaethol.

### Manyleb y person

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

### Meini Prawf Hanfodol

Dylai pob Ymgeisydd ddangos tystiolaeth o:

- Sicrhau bod y Panel yn glynu wrth [saith egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan](#), yn dangos ymrwymiad i faterion cydraddoldeb ac yn herio arferion gwahaniaethol, ac yn gweithio mewn ffordd sy'n ddiuedd o ran gwleidyddiaeth wrth gyflawni ei ddyletswyddau
- Darparu gweledigaeth ac arweinyddiaeth strategol gan gynnwys hanes profedig o gyflawni nodau o fewn amserlenni priodol
- Sgiliau rhyngpersonol cryf gan gynnwys y gallu i drafod, darbwylo a dylanwadu
- Y gallu i feithrin perthynas waith dda gyda chydweithwyr, rhanddeiliaid ac eraill, gan gynnwys rheoli cyfarfodydd a digwyddiadau allweddol eraill yn effeithiol
- Y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, ar lafar ac yn ysgrifenedig, ag unigolion sy'n amrywio o aelodau o'r cyhoedd i uwch-arweinwyr
- Y gallu i nodi a rheoli rhaglen ymchwil, ystyried a dadansoddi tystiolaeth o ystod eang o ffynonellau a gwneud penderfyniadau sy'n deg ac yn rhesymol ar sail y dystiolaeth honno
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd democratiaeth leol a gwasanaeth cyhoeddus.

## Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

I gael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni'r holl feini prawf hanfodol ar gyfer y penodiad.

### Meini prawf dymunol ar gyfer rôl y Cadeirydd

- Y gallu i ddeall a siarad Cymraeg
- Deall – Gallu deall rhannau o sgwrs sylfaenol
- Darllen – Gallu darllen a deall rhai geiriau ac ymadroddion sylfaenol
- Siarad – Gallu cynnal sgwrs sylfaenol yn y Gymraeg
- Ysgrifennu – Gallu ysgrifennu negeseuon sylfaenol ar bynciau pob dydd
- Ymwybyddiaeth o rôl Cynghorwyr a / neu waith awdurdodau lleol, awdurdodau parciau cenedlaethol neu awdurdodau tân ac achub.

### Y Gymraeg

#### Ffeithiau allweddol am y swydd

Lleoliad:	Cynhelir cyfarfodydd drwy ddull rhithwir a ledled Cymru
Ymrwymiad Amser:	1 i 2 ddiwrnod y mis ac yn ôl yr angen
Hyd y penodiad:	Hyd at bedair blynedd
Tâl:	£337 y dydd. Mae gan y Cadeirydd hawl hefyd i gael costau teithio a threuliau eraill o fewn terfynau rhesymol.

#### Pwy sy'n gymwys i wneud cais

Mae'r canlynol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o'r Panel;

- Aelod o'r Senedd
- Aelod o Dŷ'r Cyffredin
- Aelod o Dŷ'r Arglwyddi
- Aelod o Senedd Ewrop
- Aelod o brif gyngor neu gyngor tref neu gymuned
- Person sydd wedi ei anghymhwyso rhag bod yn aelod o brif gyngor neu gyngor cymuned

Gallai hyn gynnwys meini prawf anghymhwyso neu gymhwysedd penodol neu feini prawf cymhwysedd lle mae Deddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975 neu orchmynion a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn berthnasol.

Dylai ymgeiswyr nodi hefyd y bydd bod yn Aelod o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn golygu na fyddant yn gymwys i fod yn aelod o Senedd Cymru o dan [Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru \(Anghymhwyso\) 2015](#).

## Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

### Gwrthdaro Buddiannau

Wrth wneud cais bydd gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Cadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'r rôl ar Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei drafod yn y cyfweiliad. Os cewch eich penodi, bydd disgwyl ichi hefyd ddatgan y buddiannau hyn ar gofrestr sydd ar gael i'r cyhoedd.

### Diwydrwydd dyladwy

Bydd Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd a fydd wedi'i sifftio'n llwyddiannus i gyfweiliad. Bydd hyn yn cynnwys y cyfryngau cymdeithasol a chwiliadau ar y Rhynggrwyd, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i hynny. O ganlyniad, efallai y gofynnir cwestiynau ichi yn y cyfweiliad ynghylch unrhyw ganfyddiadau a ddeilliodd o'r broses diwydrwydd dyladwy.

### Safonau mewn bywyd cyhoeddus

Bydd disgwyl ichi arfer safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Bydd gofyn i'r holl ymgeiswyr llwyddiannus gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau Byrddau Cyrff Cyhoeddus. Gallwch weld y ddogfen yma:

[Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Cyrff Cyhoeddus](#)



## **Rôl a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

### **Cefndir**

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel) yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol. Fe'i sefydlwyd yn barhaol, a hynny ar y cychwyn er mwyn pennu ystod a lefelau'r lwfansau sy'n daladwy gan gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol i'w cynghorau a'u haelodau cyfetholedig sydd â hawliau pleidleisio.

Estynnodd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 gylch gwaith y Panel a rhoi iddo ei statws statudol presennol. Mae ei gylch gwaith bellach hefyd yn cynnwys cynghorau tref a chymuned, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub. Estynnwyd cylch gwaith y Panel ymhellach yn 2015, a chaiff hefyd yn awr wneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw gynnydd i newid cyflog prif weithredwr cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, yn ôl y gofyn.

### **Aelodaeth**

Mae'r Panel fel arfer yn cynnwys Cadeirydd a phedwar Aelod arall. Rhaid i'r Panel benodi un o'i Aelodau yn Is-gadeirydd. Fel arfer mae'r Panel yn cyfarfod unwaith bob mis calendr. Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd yw tri a rhaid iddo gynnwys naill ai'r Cadeirydd neu'r Is-gadeirydd.

### **Sefydliadau y mae'r Panel yn penderfynu ar gydnabyddiaeth ariannol ar eu rhan**

#### **Prif Gyngorau**

Mae'r 22 prif gyngor yng Nghymru yn gyfrifol am ystod eang iawn o wasanaethau, y mae llawer ohonynt yn statudol (h.y. mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddynt eu cyflawni). Dyma rai ohonynt:

- Addysg - er enghraifft darparu ysgolion, trafndiaeth i gludo plant i'r ysgol a darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu oedolion
- Tai - megis dod o hyd i lety i bobl mewn angen a chynnal tai cymdeithasol
- Gwasanaethau Cymdeithasol - er enghraifft gofalu am blant, pobl hŷn a phobl anabl a'u diogelu
- Priffyrdd a Thrafnidiaeth, gan gynnwys cynnal a chadw ffyrdd a rheoli llif traffig
- Rheoli Gwastraff, gan gynnwys casglu sbwriel ac ailgylchu
- Gwasanaethau Hamdden a Diwylliannol - er enghraifft darparu llyfrgelloedd, gwasanaethau hamdden a lleoliadau celfyddydol

## **Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol**

- Diogelu Defnyddwyr - megis gorfodi safonau masnach a thrwyddedu tacsis
- Iechyd a Gwasanaethau'r Amgylchedd - er enghraifft sicrhau bod y bwyd a ddarperir mewn tafarndai a bwytai yn ddiogel i'w fwyta, a rheoli llygredd yn lleol
- Cynllunio, gan gynnwys rheoli datblygiad lleol a sicrhau bod adeiladau'n ddiogel
- Datblygu Economaidd - er enghraifft denu busnesau newydd ac annog twristiaeth
- Cynllunio at Argyfwng ar gyfer pethau fel llifogydd neu ymosodiadau terfysgol

### **Cynghorau Cymuned a Thref**

Mae 735 o gynghorau cymuned a thref yng Nghymru ar hyn o bryd, gyda dros 8000 o gynghorwyr. Mae lefelau'r gwasanaethau y mae'r cynghorau hyn yn eu darparu yn amrywio ledled Cymru, ac er bod rhai yn fach ac yn gweithredu'n bennaf fel llais cymunedol, mae llawer hefyd yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar ran y gymuned megis:

- cynnal a chadw neuaddau cymunedol
- llochesi bysiau
- manau cyhoeddus
- tir chwarae

### **Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**

Mae'r tri awdurdod parc cenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth fel Parciau Cenedlaethol Cymru. Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn hyrwyddo dibenion a buddiannau tri Pharc Cenedlaethol Cymru; Bannau Brycheiniog, Arfordir Sir Benfro ac Eryri.

Mae Parciau Cenedlaethol Cymru yn rhoi modd i awdurdodau parciau cenedlaethol nodi materion sydd o ddiddordeb ar y cyd a chytuno ar allbynnau. Mae gwybodaeth a phrofiadau'n cael eu rhannu rhwng cydweithwyr, llunwyr polisi, cymunedau lleol o fewn y parciau cenedlaethol ac ymwelwyr â'r ardaloedd gwarchoddedig hyn.

Mae awdurdodau parciau cenedlaethol yn cynnwys aelodau etholedig o'r prif gynghorau o fewn ffiniau'r parciau cenedlaethol ac aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru.

### **Awdurdodau Tân ac Achub**

Cafodd y 3 gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru - Canolbarth a Gorllewin Cymru, Gogledd Cymru a De Cymru - eu ffurfio fel rhan o ad-drefnu llywodraeth leol ym 1996. Mae'r awdurdodau tân ac achub yn cynnwys aelodau etholedig a enwebir gan y prif gynghorau o fewn ardal y gwasanaeth tân ac achub.

## Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru a bydd hefyd yn cynnwys John Bader, Cadeirydd presennol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Lyn Cadwallader, Prif Weithredwr Un Llais Cymru fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhag-weld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Hydref pwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweiliad ym mis Tachwedd. Mae'n debygol y cynhelir y cyfweiliadau hyn drwy fideo-gynadledda.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweiliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweiliad, ac yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweiliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweiliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan ganolfan geisiadau Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweiliad ai peidio.

Os cewch eich gwahodd i gyfweiliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweiliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

## **Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Gadeirydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a bydd y llythyr hwnnw hefyd yn cadarnhau o dan ba amodau y caiff y penodiad ei gynnig ichi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweiliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan geisiadau Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweiliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

### **Ymholiadau**

Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

### **Os nad ydych yn hollol fodlon**

Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â [penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru](mailto:penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru)

Gallwch hefyd ysgrifennu i: Office of the Commissioner for Public Appointments G/08, 1 Horse Guards Road, London SW1A 2HQ.